Senedd Cymru

# Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar Gofnodi Cyflogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn

Diweddarwyd ddiwethaf: Mawrth 2021

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Cynnwys

Y Cofnod o Gylfogaeth Aelodau'r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn (RhS3) .......... 4

Cofnodi Cyflogaeth yn ymarferol .......... 4

Y dyddiadau cau ar gyfer cofnodi cyflogaeth – Rheol Sefydlog 3.4 a 3.5 .......... 5

Atodiad A .......... 7

Atodiad B .......... 8

**1.** Cytunodd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar 17 Ionawr 2019 na fydd dim cyllid Comisiwn y Senedd ar gael i gyflogi aelodau'r teulu nad oeddent eisoes wedi'u cyflogi cyn 1 Ebrill 2019. Felly, gwaherddir aelodau rhag cyflogi aelodau o'u teulu eu hunain gyda chymorth arian Comisiwn y Senedd. Fodd bynnag, bydd cyflogau aelodau'r teulu a benodwyd cyn 1 Ebrill 2019 yn parhau i gael eu hariannu gan y Comisiwn tan ddiwedd y Chweched Senedd, er na chaniateir i gontractau aelodau'r teulu gael eu gwella gan yr Aelod sy'n cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn ogystal, gall Aelodau barhau i gyflogi aelodau o deuluoedd Aelodau eraill. Felly, mae'r rheolau ar gofnodi cyflogaeth aelodau’r teulu gyda chymorth arian y Comisiwn yn parhau i fod yn gymwys o dan yr amgylchiadau a amlinellir uchod, ac mae'n dal yn ofynnol i Aelodau gofnodi manylion o'r fath, yn unol â Rheol Sefydlog 3.

**2.** Diben y canllawiau hyn yw helpu'r Aelodau i gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u gosod arnynt o dan Reol Sefydlog 3. Serch hynny, nid yw'r canllawiau yn disodli Rheol Sefydlog 3. Yr Aelodau yn unig sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd wedi'u gosod arnynt, er y cânt ofyn am gyngor y Llywydd, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd neu Gofrestrydd Buddiannau’r Aelodau (drwy Swyddfa Gyflwyno’r Senedd).

**3.** Dyma brif elfennau Rheol Sefydlog 3 y Senedd:

**3.1** Mae'n rhaid i Aelodau sy'n cyflogi aelodau o deulu (yn unol â'r diffiniad yn  y Rheol Sefydlog) roi hysbysiad o dan y Rheol Sefydlog hon.

**3.2** Yn darparu'r diffiniad o bwy sydd i'w ystyried yn "aelod o deulu" o dan y Rheol Sefydlog hon. (DS. Mae'r gofyniad bod rhaid rhoi hysbysiad yn gymwys i aelodau o deulu Aelodau Senedd eraill hefyd).

**3.3** Yn nodi'r gofynion ynglŷn â'r hyn sydd i'w gynnwys mewn unrhyw hysbysiad a fydd yn cael ei roi o dan y Rheol Sefydlog hon.

**3.4 and 3.5** Yn darparu manylion y dyddiadau cau ar gyfer rhoi hysbysiadau o dan y Rheol Sefydlog hon.

**3.6** Mae'n rhaid i'r hysbysiad gael ei roi drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen a ragnodir gan y Llywydd.

**3.7** Mae'r cofnod o hysbysiadau sy'n cael eu rhoi o dan y Rheol Sefydlog hon yn agored i'r cyhoedd ei archwilio.

**3.8** Mae'r Aelodau o dan ddyletswydd barhaus i sicrhau bod y cofnod o hysbysiadau'n gywir.

**4.** Edrychir yn fanwl ar y darpariaethau hyn isod.

**5.** Mae Rheol Sefydlog 3 yn ymdrin â sut mae Aelodau i gofnodi'r ffaith bod aelodau o deulu'n cael eu cyflogi. Mae methu â chofnodi cyflogaeth aelodau o deulu yn fater y caiff y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymchwilio iddo o dan Reol Sefydlog 22 gan argymell camau os bydd yn gweld bod Aelod heb gydymffurfio â darpariaethau Rheol Sefydlog 3.

## Y Cofnod o Gyflogaeth Aelodau’r Teulu gyda Chymorth Arian y Comisiwn (RhS3)

**6.** O dan Reol Sefydlog 3, rhaid i unrhyw Aelod sydd ar unrhyw adeg, gyda chymorth arian y Comisiwn, yn cyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, berson y mae'r Aelod hwnnw'n gwybod ei fod yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall roi hysbysiad o dan y Rheol Sefydlog hon, a hynny heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn Rheol Sefydlog 3.4.

**7.** Mae darpariaethau Rheol Sefydlog 3 wedi'u modelu ar y darpariaethau yn Rheolau Sefydlog 2 a 5, fel y gwelir yn yr amserau i gofnodi cyflogaeth aelodau o'r teulu. Yn yr un modd â Rheolau Sefydlog 2 a 5, nid yw'r darpariaethau yn ddewisol nac yn wirfoddol.

## Cofnodi Cyflogaeth yn ymarferol

**8.** Mae'r diffiniad o'r hyn sydd angen ei gofnodi drwy roi hysbysiad wedi'u nodi yn Atodiad A.

**9.** Mae manylion y materion penodol y mae angen eu cynnwys mewn unrhyw hysbysiad wedi'u nodi yn Atodiad B.

**10.** Mae dau brif gwestiwn y mae angen i'r Aelodau eu hystyried wrth benderfynu a yw'n ofynnol iddynt roi hysbysiad ffurfiol ynghylch cyflogaeth o dan y Rheol Sefydlog hon. Os ydy yw'r ateb i'r ddau gwestiwn isod, yna fe fydd angen rhoi hysbysiad ffurfiol:

- Ydy'r person rwy'n ei gyflogi yn 'aelod o deulu' i mi, neu'n 'aelod o deulu' i Aelod Senedd arall?

- **Ydy cyflogaeth yr 'aelod o deulu' yn cael ei threfnu gyda chymorth arian y Comisiwn?**

**11.** Mae Rheol Sefydlog 3.2 yn darparu diffiniad o ystyr aelod o deulu (Atodiad A). Wrth gwrs, dim ond os yw'r Aelod yn gwybod bod y person y mae'n ei gyflogi yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall y mae Rheol Sefydlog 3.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyflogaeth gael ei chofnodi.

**12.** Mae darpariaethau'r Rheol Sefydlog hon hefyd yn datgan yn glir ei bod yn ofynnol nid yn unig i'r Aelodau gofnodi'r manylion wrth iddynt gyflogi aelodau o deulu **yn uniongyrchol**, ond hefyd wrth gyflogi aelodau o deulu **ar sail anuniongyrchol**. Mae cyflogaeth uniongyrchol yn haws ei hadnabod, ond cynghorir yr Aelodau i ystyried yn fanylach a allai cyflogaeth aelodau o deulu ddod o dan y categori anuniongyrchol. O ran canllaw, mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n gyflogaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol. Serch hynny, dylai'r Aelodau nodi nad rhestr gynhwysfawr mo hon, ac mai eu cyfrifoldeb hwy yw cydymffurfio â'r Rheol Sefydlog:

- **Cyflogaeth Uniongyrchol:** Cyflogi aelod o deulu fel: aelod o'u Staff Cymorth; derbynnydd mewn swyddfa etholaeth; gweithiwr achosion; ayyb.

- **Cyflogaeth Anuniongyrchol:** Cyflogi cwmni bach neu ffyrm y mae aelod o deulu yn ennill budd arwyddocaol ohono neu ohoni, er enghraifft, Aelod sy'n cyflogi ffyrm lanhau fach y mae'r 'aelod o deulu' yn bartner ynddi neu sy'n cyflogi'r 'aelod o deulu' fel glanhawr. Ond does dim rhaid i'r Aelod roi hysbysiad ynglŷn ag aelod o deulu sy'n cael ei gyflogi gan gwmni mawr, megis cyfleustod, dim ond am fod y cwmni hwnnw'n cyflenwi gwasanaethau i'r Aelod.

## Y dyddiadau cau ar gyfer cofnodi cyflogaeth – Rheol Sefydlog 3.4 a 3.5

**13.** Mae Rheol Sefydlog 3.4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau roi hysbysiad ffurfiol ynghylch cyflogaeth aelodau o deulu:

**(a)** Cyn pen **wyth wythnos** ar ôl tyngu'r llw neu roi'r cadarnhad; neu

**(b)** Cyn pen **pedair wythnos** ar ôl:

**(i)** Y tro cyntaf i'r aelod o deulu gael taliad gyda chymorth arian y Comisiwn,

**(ii)** Y dyddiad y daw'r cyflogai yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o Aelod arall, or

**(iii)** Y dyddiad y daw'r Aelod yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r ffaith bod y cyflogai yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall, p'un bynnag yw'r olaf.

**14.** Mae'r Aelodau hefyd yn gyfrifol o dan Reol Sefydlog 3.5 am roi hysbysiad ffurfiol ynghylch unrhyw newidiadau yn y manylion sydd wedi'u cofnodi eisoes (er enghraifft newid yn swyddogaeth cyflogaeth yr aelod o deulu) a hynny cyn pen pedair wythnos ar ôl i'r newid ddigwydd.

**15.** Oherwydd y gofyniad yn Rheol Sefydlog 3 bod rhaid rhoi hysbysiad ynghylch unrhyw newid yn y manylion sydd wedi'u cofnodi cyn pen pedair wythnos ar ôl i'r newid hwnnw ddigwydd, cynghorir yr Aelodau i adolygu eu hysbysiadau yn rheolaidd.

**16.** Mae cynnwys y Cofnod o Gyflogaeth Aelodau'r Teulu ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ar dudalen Cofrestr Buddiannau pob Aelod. Caiff y tudalennau hyn eu diweddaru cyn gynted ag y bo modd ar ôl i newid i gofrestr Aelod ddod i law.

# Atodiad A

Diffiniadau o'r categorïau o faterion y mae'n rhaid eu cofnodi yn unol â Rheol Sefydlog 3.

Dyma ofynion Rheol Sefydlog 3:

**3.1** O dan Reol Sefydlog 3, rhaid i Aelod sydd ar unrhyw adeg, gyda chymorth arian y Comisiwn, yn cyflogi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, berson y mae'r Aelod hwnnw'n gwybod ei fod yn aelod o deulu'r Aelod hwnnw neu'n aelod o deulu Aelod arall roi hysbysiad o dan y Rheol Sefydlog hon, a hynny heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn Rheol Sefydlog 3.4.

**3.2** Yn y Rheol Sefydlog hon:

**(i)** ystyr "aelod o deulu" yw:

**(a)** partner Aelod;

**(b)** plentyn neu ŵyr/wyres Aelod;

**(c)** rhiant, taid neu nain Aelod;

**(d)** brawd neu chwaer Aelod;

**(e)** nai neu nith Aelod; neu

**(f)** ewythr neu fodryb Aelod.

**(ii)** ystyr "partner" yw priod, partner sifil neu un o gwpl p'un ai o'r un rhyw ynteu o'r rhyw arall sy'n byw gyda'i gilydd, er nad ydynt yn briod, ac sy'n trin ei gilydd fel dau briod;

**(iii)** mae'r ymadroddion "plentyn", "ŵyr", "wyres", "rhiant", "taid", "nain", "brawd", "chwaer", "ewythr" a "modryb" yr un mor gymwys i hanner-perthnasau, llys-berthnasau, perthnasau maeth a pherthnasau mabwysiadol ac maent yn gymwys hefyd i bersonau sydd â'r berthynas o dan sylw â phartner yr Aelod;

**(iv)** ystyr "arian y Comisiwn" yw symiau a delir gan y Comisiwn ar ffurf lwfansau o dan Reol Sefydlog 1.7.

# Atodiad B

Manylion y materion penodol y mae angen eu cynnwys mewn unrhyw hysbysiad a fydd yn cael ei roi yn unol â Rheol Sefydlog 3.

Mae Rheol Sefydlog 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn unrhyw hysbysiad sy'n cael ei roi:

**(i)** enw'r Aelod;

**(ii)** os yw'r cyflogai yn aelod o deulu Aelod arall neu Aelodau eraill, enw'r Aelod arall neu enwau'r Aelodau eraill hynny;

**(iii)** enw llawn y cyflogai;

**(iv)** perthynas y cyflogai â'r Aelod (neu, os yw'n briodol, â'r Aelod neu'r Aelodau y cyfeirir atynt yn (ii));

**(v)** ym mha swyddogaeth y mae'r cyflogai wedi'i gyflogi, gan gynnwys unrhyw deitl swydd;

**(vi)** y dyddiad y dechreuodd y gyflogaeth;

**(vii)** os yw'r gyflogaeth wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben; a

**(viii)** yr oriau y mae'r cyflogai wedi'i gontractio i'w gweithio bob wythnos.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Aelodau roi hysbysiad ynghylch unrhyw newidiadau yn yr wybodaeth sydd wedi'i chofnodi. Gan hynny, os bydd manylion y gyflogaeth, sydd wedi'u nodi uchod, yn newid mewn unrhyw fodd, mae'n rhaid i'r Aelodau roi hysbysiad ynghylch y newidiadau hynny.

Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 3.1 (yr hysbysiad cychwynnol) neu o dan Reol Sefydlog 3.5 (newid manylion) gael ei roi drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen sydd wedi'i rhagnodi gan y Llywydd. Gellir cyflwyno’r ffurflen hon i'r Swyddfa Gyflwyno yn electronig neu ar ffurf copi caled.